# Cofnodion Cyfarfod CCG Chwefror (a ohiriwyd tan 5.3.20)

19:116: **Presennol:** Siôn Ifans (Cadeirydd), Huw Williams, Deryck Lewis, Gareth Jones, Aled Griffiths, Gwen Lloyd, Dafydd Evans, Paul Hughes, Geraint Wigley, Gareth Owen, Dafydd Evans,

19:117: **Ymddiheuriadau:** Gwyn Jones, William Owen, Gwenfair Davies, Aeron Pughe, Elwyn Vaughan, Iwan Jones

Estynnwyd pob cydymdeimlad at y Cynghorydd Gwyn Jones a'r teulu am eu colled yn ddiweddar.

19:118: **Datganiadau o ddiddordeb** - Dim

19:119: **Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Chwefror** Cynigiodd Gwen Lloyd fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan Geraint Wigley.

19:120: **Materion yn codi o'r cofnodion:**

19:120:1: Materion yn ymwneud â ffyrdd

Cwmlline -Canghennau wrth y bont – cafwyd ymateb gan Traffig Cymru ar ôl i gynrychiolwyr gyfarfod â'r Cynghorydd Deryck Lewis. Cytunwyd gan fod yno berygl i ddefnyddwyr ffyrdd, ond ni fydd unrhyw weithredu gan nad yw'r coed yn ateb y gofynion ar gyfer angen eu tocio Mynegwyd siom a nodir bod y Cynghorwyr wedi gwneud eu gorau glas i ddatrys y sefyllfa.

Mae'n bosib y bydd gweithredu mewn perthynas â llwybr troed diogel yn y lleoliad.

Bydd y coed a syrthiwyd ger Kennels Dorcorslwyn yn cael eu trin.

Cyfyngder cyflymder Cemaes a Chwmlline (19:115:8) Ni fydd unrhyw weithredu gan nad oes data digonol am achosion o ddamweiniau i gefnogi'r cais. Mynegwyd siom a rhwystredigaeth nad oes modd bod yn rhagweithiol er lles y cyhoedd,

- Mae'r canghennau yn Abercegir wedi cael eu torri.

  Pont ar Ddyfi newydd (19:113:1) – Derbyniwyd ymateb y gan y Llywodraeth yn nodi bod nifer o gyrff yn gyfrifol am wneud y penderfyniadau ac mai MWNTRA fydd yn cynnal a chadw'r pwmp o dan y bont.
- Cyfyngder cyflymdra yng Nghemaes a Chwmlline. (19:115:8) Mynegwyd pryder nad yw'r cyfyngder cyflymdra'n ddigonol. Penderfynwyd cysylltu â Ken Skates i ofyn am arwyddion cyfyngder cyflymdra 30mya.
- Dŵr yn cronni wrth 'grating' wedi suddo ger Rhosawel Cwmlline – Bydd Cyngor Sir Powys yn gweithredu.

- Mynedfa Glantwymyn - cais am arwydd ildio a marcio'r ffordd – Nid fydd Traffig Cymru'n yn gwneud dim am y broblem gan mai Cyngor Sir Powys sy'n gyfrifol am hwn. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Sir Powys i adrodd hyn gan bwysleisio nad yw'r Cynghorwyr yn fodlon gyda honiad Cyngor Sir Powys bod 'kerbs' yn ddigonol i ddynodi hawliau ildio ar y ffordd.
- Bydd cynrychiolydd o'r Adran Tai yn ymweld â'r byngalos ger Parc Sisial Afon i ystyried a oes modd gosod cerrig ar gyfer parcio.
- Carafan mewn 'layby' ger Mathafarn (19:105:1) - erbyn hyn wedi mae cael ei symud. Mae'r llwybr troed rhwng Goleufryn a Hafod, Glantwymyn wedi cael ei drwsio.

19:121: **Cynllunio:** Dim

19:122: **Materion Ariannol: Taliadau**

19:122:1: Aelodaeth Un Llais Cymru – £.216.00

19:122:2: Cyfraniad 2020 at dorri gwair i fynwent Cemaes am £250.00 gan gynnwys £50.00 ar gyfer 2019.

19:123: **Gohebiaeth:**

19:123:1: Cafwyd llythyr gan Craig Williams AS Drefaldwyn yn cynnig cefnogaeth i'r Cyngor a nodi y byddai'n hapus i gwrdd â'r Cyngor ac yn estyn gwahoddiad i ymweld â'r Tŷ Cyffredin.

19:123:2: Derbyniwyd llythyr Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Anfonwyd y wybodaeth at fudiadau lleol yn cynnwys Ysgol Glantwymyn, ysgol Feithrin Glantwymyn a Chymdeithas Pentref Cemaes.

19:123:3: Derbyniwyd Llythyr gan Ambiwlans Awyr Cymru yn ceisio nawdd. Gohiriwyd y mater am y tro nes pennu elusennau penodol i'w noddi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

19:123:4: Cafwyd llythyr gan Bwrdd Iechyd Powys yn ymateb i lythyr a anfonwyd gan y Cyngor ym mis Rhagfyr. Roedd y Cynghorwyr yn anfodlon iawn gyda hwn gan and oedd unrhyw ddatrysiad mewn gwirionedd. Nodwyd mai nad cwyno er mwyn cwyno mae'r Cyngor ond gwneud er mwyn trafod a gwella gwasanaeth er lles y cyhoedd. Nodwyd anfodlonrwydd arbennig ynglŷn â'r ymateb i'r broblem yn ymwneud â pharcio a mynegwyd pryder bod aelod o staff a hyfforddwyd fel parafeddyg mewn nifer o achosion yn gwneud gwaith meddyg. Nodwyd hefyd nad oedd y broses gwyno'n hawdd nac yn amlwg. Mynegwyd pryder bod pobl yn ofni cwyno rhag ofn torri'r perthynas oedd ganddynt â'r meddygon, nad yw'r pwyntiau a godir yn cael eu hystyried o ddifrif ac os bydd pobl yn cwyno maent yn cael eu hannog i fynd i rywle arall os nad yw'r gwasanaeth yn ddigon da yn eu tyb nhw. Ni theimlwyd bod staff yn cydnabod y sefyllfa wirioneddol. Mynegwyd pryderon ynghylch effeithiolrwydd Bwrdd Iechyd Hyfforddi Powys o ran rheoli'r practis a'r meddygon yn effeithiol er budd y cyhoedd.

Bydd cynrychiolwyr CCG yn codi'r pryderon uchod yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Cleifion .

19:123:5: Derbyniwyd llythyr gan Russel George yn nodi bod croeso i'r Cyngor gysylltu eto os and oedd yn fodlon ar ymateb Powys i'r pryderon. Penderfynwyd gwneud.

**Aled Griffiths ar ran y Llywodraethwyr**

Nodwyd bod y sefyllfa'n iawn ar hyn o bryd o ran cyllid, er y nodwyd y gallai hynny newid.

Nodwyd bod prysurdeb mewn perthynas ag Eisteddfod yr Urdd a dymunwyd pob llwyddiant.

19:114:3: **Elwyn Vaughan – y Cyngor Sir**

Nodwyd y bydd Treth y Cyngor yn codi o 4.8%

19:115: **Unrhyw Faterion Eraill**

19:115:1: Mae'r Rhwydwaith Rheilffyrdd wedi tocio'r coed yng Nglantwymyn.

19:115:2: Problemau gyda dŵr – Pwysleisiwyd mai nad oherwydd effeithiau llifogydd cyffredinol mae'r problemau isod wedi codi ond yn hytrach o ganlyniad i ddiffyg cynnal a chadw effeithiol dros y blynyddoedd blaenorol.

- Melin Eithin. Mae cylfatiau wedi'u blocio felly mae dŵr o gyfeiriad Bryn melyn yn cronni y tu allan i'r tŷ. Mae hyn yn digwydd o ganlyniad i'r Cyngor yn brwsio'r ffyrdd a gadael yr ysbwriel ar ochr y ffordd.
- Tŷ Nant - Mae dŵr yn crynhoi ger Cwmberllan, Nant y Gaseg a Chefn Coch ac yn creu problemau mawr yn adeiladau fferm Tŷ Nant yn enwedig yn y siediau defaid. Mae gwteri cyhoeddus wedi cael eu blocio ac er bod y perchennog wedi bod yn weithgar iawn yn eu dadflocio gwteri a 'manholes' Cyngor Sir Powys o'i wirfodd ei hunan mae llawer iawn o rwbel a cherrig wedi blocio'r draeniau. Byddai'n croesawu cyfle i gyfarfod â'r Cyngor i wella'r sefyllfa a hynny ar frys gan fod hi'n adeg wyna.
- Mae dŵr yn crynhoi yn Nghwmberllan, Nant y Gaseg a Chefn Coch
- Tyllau yn y ffordd a tharmac wedi codi wrth gornel Bryn Gronwy
- Gratings/cylfatiau wedi blocio rhwng Gwernstablau a Llanwrin
- Problem gyda dŵr ar y ffordd ger Aberffryddlan gyda'r dŵr yn rhedeg i lawr wrth ochr y ffordd am y capel.
- Problem gyda'r dŵr ger Hendreseifion a Glanfechan. Mae hon mor ddifrifol nes ei bod yn atal y bws ysgol rhag fynd â'r plant i'r ysgol a bod rhieni'n gorfod cludo'r plant.
- Tipio anghyfreithlon yn y 'layby 'ar dop y Grofft
- Ysbwriel yn 'layby' Dorcorslwyn (Gweler y llun.
- Baw cŵn yn cael ei gadael a ger bont Rhydygwial, Cemaes – penderfynwyd gofyn i Gyngor Sir Powys am fin ysbwriel.
- Dŵr yn cronni ar y ffordd gefn i Bantberthog. Mae'r Cyngor wedi bod yno ond heb orffen y gwaith.
- Pont wrth fynedfa Canolfan y Dechnoleg Amgen wedi fflydio.

19:115:2: Cofebion Rhyfel Cemaes a Chwmlline. Mae ceisiadau ar y gweill I geisio cymorth ariannol gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyef a'r Comisiwn Beddau i adfer y cofebion. Diolch i Ms Nesta Williams am y lluniau'n gysylltiedig â chofeb Hugh Owen.

Caewyd y cyfarfod am 8.40yh.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 ar y 30ain o Fawrth**

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 5.3.20**

Cafwyd llythyr i ddiolch ar ran Ysgol Glantwymyn am y cyfraniad tuag at daith addysgol i Blitz Hill, Ironbridge.

Caewyd y cyfarfod am 8.45